# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Video Conference via Zoom**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 29 Medi 2020

Amser: 09.00 - 09.41

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Rebecca Evans AS<br>Darren Millar AS<br>Siân Gwenllian AS |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru<br>Bethan Garwood |

# 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

# 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

# 3 Trefn busnes

## 3.1 Busnes yr Wythnos Hon

Nododd y Pwyllgor Busnes benderfyniad y Llywydd i barhau â Chyfarfodydd Llawn hybrid yr wythnos hon, yn dilyn ymgynghoriad anffurfiol â'r Rheolwyr Busnes.

Dywedodd y Trefnydd wrth y Rheolwyr Busnes y byddai Aelodau meinciau cefn Llafur ac aelodau'r llywodraeth yn cymryd rhan yn y cyfarfodydd hybrid o bell yr wythnos hon.

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y tri newid i fusnes dydd Mawrth yn y copi diwygiedig o Fusnes yr Wythnos Hon a ddosbarthwyd ddoe:

- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am Gyfyngiadau Lleol y Coronafeirws wedi cael ei symud yn ddiweddarach yn yr agenda.
- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am Wasanaethau Mamolaeth a Gwelliannau Llywodraethu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wedi'i ohirio tan 13 Hydref.
- Mae'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Pysgodfeydd wedi'i ohirio tan 6 Hydref.

Dywedodd y Trefnydd hefyd wrth y Rheolwyr Busnes y bydd newid pellach i symud y rheoliadau iechyd cyhoeddus i ddod yn gynharach yn y dydd.

## 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at yr amserlen ddiwygiedig, a ddosbarthwyd ddoe:

**Dydd Mawrth 6 Hydref 2020 -**

- ~~Datganiad gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol: Y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau ym Mholisi Masnach y DU (45 munud)~~ - *Gohiriwyd tan 3 Tachwedd 2020*
- ~~Datganiad gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Cynllun Drafft i Fynd i'r Afael â Thlodi Tanwydd yng Nghymru (45 munud)~~ - *Gohiriwyd tan 20 Hydref 2020*
- Datganiad gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd: Cynllun Adferiad Coronafeirws (45 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd: Y wybodaeth ddiweddaraf am effeithiau cyllidol COVID-19 a rhagolygon cyllideb y dyfodol (45 munud)
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar y canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (30 munud):
  - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) (Llanelli etc.) 2020
  - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) (Abertawe a Chaerdydd) 2020
  - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 15) (Bro Morgannwg, Castell-nedd, Port Talbot a Tor-faen 2020
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Pysgodfeydd (30 munud)

**Dydd Mawrth 13 Hydref 2020 -**

- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y wybodaeth ddiweddaraf am Wasanaethau Mamolaeth a Gwelliannau Llywodraethu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (45 munud) - gohiriwyd o 29 Medi.
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar y canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (60 munud):
  - Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru).

Y penderfyniad ariannol mewn perthynas â'r Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru)

### 3.3 Amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnwys yr eitemau busnes a ganlyn yn yr amserlen:

**Dydd Mercher 7 Hydref 2020 –**

- ~~Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid: – Ymchwiliad i broses ddeddfwriaethol ar gyfer y gyllideb (60 munud)~~ – *gohiriwyd tan 14 Hydref*
- Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad – Adroddiad 01-20 (15 munud)
- Cynnig i ddirprwyo awdurdod i wneud y trefniadau ar gyfer recriwtio Comisiynydd Safonau newydd i'r Prif Weithredwr a'r Clerc (5 munud)
- Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad – Tâl y Comisiynydd Safonau Dros Dro (15 munud)

**Dydd Mercher 14 Hydref 2020 –**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid: – Ymchwiliad i broses ddeddfwriaethol ar gyfer y gyllideb (60 munud) – *gohiriwyd o 7 Hydref*
- ~~Amser a neilltuwyd i Blaid Brexit (60 munud)~~ – *gohiriwyd tan 4 Tachwedd*

**Dydd Mercher 21 Hydref 2020 –**

- Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud)
- Dadl ar Ddeiseb P-05-1003: Mynnu Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol nawr ynghylch gwaredu mwd wedi'i halogi'n radiolegol yn nyfroedd Cymru (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i bennu terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad ddydd Llun 5 Hydref i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y rheoliadau.

### 4.2 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) (Llanelli etc.) 2020

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i bennu terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad ddydd Llun 5 Hydref i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y rheoliadau.

### 4.3 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) (Abertawe a Chaerdydd) 2020

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i bennu terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad ddydd Llun 5 Hydref i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y rheoliadau.

### 4.4 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 15) (Bro Morgannwg, Castell-nedd, Port Talbot a Torfaen 2020

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i bennu terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad ddydd Llun 5 Hydref i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y rheoliadau.

Yn dilyn trafodaeth yn y ddadl yr wythnos diwethaf, gofynnodd y Rheolwyr Busnes i'r ysgrifenyddiaeth am bapur ar gyfer cyfarfod yr wythnos nesaf ar y broses gadarnhaol gwnaed.

### 4.5 Y wybodaeth ddiweddaraf am y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol cyfredol

Nododd y Pwyllgor Busnes y sefyllfa ddiweddaraf o ran y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol, a dyddiad y ddadl arfaethedig yn y Cyfarfod Llawn o 3 Tachwedd ar gyfer y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ardrethu Annomestig (Toiledau Cyhoeddus) a 6 Hydref ar gyfer y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Pysgodfeydd.
Cyfeiriodd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Marchnad Fewnol y DU at y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad i graffu arno, gyda terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 19 Tachwedd 2020.

Cytunodd y Pwyllgor i beidio â chyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Amaethyddiaeth i graffu arno.

## 5 Y Cyfarfod Llawn

### 5.1 Rheoli amser y Cyfarfod Llawn ar ddydd Mercher

Trafododd y Rheolwyr Busnes y papur, a chytunwyd i drefnu llai o ddadleuon eraill pan fydd eitemau 30 munud fel cwestiynau'r Comisiwn wedi'u trefnu.

# 6 Pwyllgorau

## 6.1 Amserlen y Pwyllgorau

Nododd y Pwyllgor Busnes y llythyr. Dywedodd y Trefnydd fod Gweinidogion yn blaenoriaethu bod yn bresennol mewn cyfarfodydd pwyllgor, ond gofynnodd i bwyllgorau roi cymaint o rybudd â phosibl, yn enwedig ar ddyddiau pan gynhelir cyfarfodydd y Cabinet.